CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 14, 2020

www.cyngorllanelltyd.cymru

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 14, 2020 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), John Hughes, Gethin Williams Geraint Rowlands, Gareth Ellis, Carwyn Evans, Elfed ap Gomer, Llinos Williams. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Nid oedd ymddiheuriadau.

2. Datgan diddordeb:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 10, 2019

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Rhagfyr 10, 2019

Eitem 4, Eitem 9.a. Llythyr ateb (12/12/2019) oddi wrth Cyngor Cymuned Arthog yn rhoi eu sylwadau ar gymryd cyfrifoldeb o lefydd chwarae.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau (12/12/2019).

Penderfynwyd cael arweiniad gan y swyddog, Rheolwr Prosiect.

Eitem 11.c. Penderfynwyd i'r aelodau gwneud ymoliadau am aelod ac os mae diddordeb ganddo / ganddi fod yn aelod o'r Cyngor yna anfon llythyr i'r Clerc.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/11/2019) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2020 / 2021. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 24, 2020.

Praesept 2018 /2019 - £7,500.00. Praesept 2019 /2020 - £7,500.00.

Anfonwyd manylion o'r Praesept am 2020 / 2021 i'r aelodau.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £7,500 fel llynedd.

b. Llythyr (17/12/2019) oddi wrth Cwmni Theatr Bara Caws cyf, Caernarfon. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Derbyniwyd (4/12/2019) £682.75, ad-daliad TAW oddi wrth HMRC am y cyfnod 1/3/2017 – 31/10/2019.

ch. Derbyniwyd (17/12/2019) £841.17, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau.

d. Bil (5/1.2020) am £192.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn Mawrth 1, 2020.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Llythyr (6/1/2020) oddi wrth Cymdeithas Undebol Machreth. Maent angen cymorth ariannol tuag at eu hapel am diffibriliwr i bentref Llanfachreth.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

e. O Gofnodion Tachwedd 12, 2019 Eitem 4. Eitem 9.a. Derbyniwyd pris (14/1/2020) gan Mr Paul Cook am y gwaith bydd angen ei wneud i ddod ar adeilad Toiledau Cyhoeddus Bontddu i'r un safon a Thoiledau Cyhoeddus yn Ganllwyd.

Penderfynwyd cael pris gan Mr Richard Williams, Tyn Y Wern a Mr H.B, Davenport, Hafod y Morfa.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Banc i ganslo y symiau misol tuag at bil treth annomestig genedlaethol Cyngor Gwynedd. Rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd am y canslo.

f. Bil (5/1.2020) am £34.20 oddi wrth G.W. Jones am dorri gwrych y fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

ff. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr 2019: £10,163.68

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (10/1/2020) yn rhoi gwybod bydd gwaith difa Rhododendron yn Bontddu yn cael ei wneud yn fuan. (Gweler Cofnodion Tachwedd 12, 2019, Eitem 11.b.).
Os mae angen cael gwared Rhododendron yn rhywle arall yn yr ardal maent angen i ni gysylltu â hwy.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (3/1/2020) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i Arddwest Palas Buckingham ar 12 Mai, neu 19 Mai, neu 27 Mai. Os mae diddordeb maent angen gwybod cyn 31/1/2020.

b. Llythyr (12/12/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Ionawr 8, 2020 am 7.00yh. Bydd Nia Wyn Hughes o Gronfa Loteri Gymunedol yn bresennol yn rhoi gwybodaeth am grantiau i gynghorau cymunedol. Amgáu mae Agenda, Cofnodion cyfarfod Hydref 16, 2019, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, Maes y Sioe Amaethyddol ar Fedi 13, 2019.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu:

1. newid trefniadau i gasglu biniau.
2. newid trefniadau i sgubo a glanhau cwteri.

11. Materion Brys

a. Galwad ffôn (21/12/2019) gan unigolyn yn rhoi gwybod bod baw ci / dyn yng nghiosg bws gyferbyn Stad Bro Cymer, Llanelltyd ar ffordd A470.

Rhoddwyd gwybod i Cyngor Gwynedd (21/12/2019) i lanhau'r ciosg.

b. Penderfynwyd gwneud ymoliadau cael defnyddio ciosg ffôn sydd wrth Gorphwysfa, Taicynhaeaf i gadw diffibriliwr.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adra mae angen archwilio coeden masarn sydd o flaen stad Bro Cymer, Llanelltyd. Mae canghennau'r goeden wedi bod yn torri a disgyn yn ddiweddar.

ch. Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Mr Edward Harris iddo gau bwlch sydd rhwng ffens a wal wrth Bont Wnin.

d. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen tocio gwrych ar ffordd Hirgwm o dŷ Bryn Awelon i bont Hirgwm. Hefyd, sgubo ffordd Hirgwm a ffordd Hendre ar ei hyd a glanhau cwterydd.